

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 967 (Cy. 162)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Taliadau am
Wyliadwriaeth Gweddillion
(Diwygio) (Cymru) 2024**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Taliadau am Wyliadwriaeth Gweddillion 2006 ("Rheoliadau 2006") o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 2, 3 a 4 o Reoliadau 2006 i roi awdurdodau cymwys yn lle'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymru. Bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn galluogi'r awdurdodau cymwys sy'n cyflawni rheolaethau swyddogol i adennill y taliad yr eir iddo wrth gynnal yr arolygiadau a'r rheolaethau mewn perthynas â gwylidwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid am weddillion cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol a sylweddau eraill.

Mae Rheoliad 2(4) yn diwygio'r darpariaethau gorfodi yn Rheoliadau 2006 i roi swyddogaethau mewn cysylltiad â gorfodi i Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn amrywio'r ffioedd y mae'n ofynnol eu talu mewn cysylltiad â gwylidwriaeth anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid am weddillion cynhyrchion meddyginiaethol milfeddygol a sylweddau eraill.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2024 Rhif 967 (Cy. 162)

BWYD, CYMRU

**Rheoliadau Taliadau am
Wyladwriaeth Gweddillion
(Diwygio) (Cymru) 2024**

<i>Gwnaed</i>		<i>18 Medi 2024</i>
<i>Gosodwyd Cymru</i>	<i>gerbron</i>	<i>Senedd 20 Medi 2024</i>
<i>Yn dod i rym</i>		<i>1 Hydref 2024</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 6(4), 45 ac 48(1)(b) ac (c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(2).

Yn unol ag adran 48(4A)(3) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar y cynnig i wneud y Rheoliadau hyn.

Ymgynghorwyd fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd

-
- (1) 1990 p. 16. Diwygiwyd adran 6(4) gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40), paragraff 10(1) a (3)(a) a (b) o Atodlen 5, ac Atodlen 6 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999") ac Atodlen 2 i O.S. 2002/794. Diwygiwyd adrannau 45(1) a (2) ac 48(1) o'r Ddeddf gan baragraffau 7, 8 ac 20 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.
- (2) Rhoddwyd y swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- (3) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28).

Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd⁽¹⁾.

Enwi, cymhwyso a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau am Wylidwriaeth Gweddillion (Diwygio) (Cymru) 2024.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2024.

Diwygio Rheoliadau Taliadau am Wylidwriaeth Gweddillion 2006

2.—(1) Mae Rheoliadau Taliadau am Wylidwriaeth Gweddillion 2006⁽²⁾ wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ar ôl y diffiniad o “carcase” mewnosoder—

““competent authority” has the meaning given in Article 3(3)(a) of the Official Controls Regulation;”;

(b) o flaen y diffiniad o “animal” mewnosoder—

““the Official Controls Regulation” means Regulation 2017/625 of the European Parliament and of the Council on official controls and other official activities performed to ensure the application of food and feed law, rules on animal health and welfare, plant health and plant protection products⁽³⁾;”.

(3) Yn rheoliad 3 (atebolrwydd am wylidwriaeth gweddillion ac adennill taliadau am wylidwriaeth gweddillion)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) In respect of the costs incurred by a competent authority in carrying out the official controls required by Article 150(1) of the Official Controls Regulation on the animals, fish and animal products listed in the first column of Schedule 1, the competent authority must, except where paragraph (7) applies—

(a) for animals slaughtered, wild game prepared, fish marketed, milk collected or eggs packed within the period beginning with 1 October 2024 and ending with 31 March 2025, charge the amount specified in the relevant entry

(1) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2006/2285, a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/2439, O.S. 2008/2999, 2009/2779 a 2011/2945.

(3) EUR 2017/625. Diwygiwyd Erthygl 3(3)(a) gan O.S. 2020/1481, O.S. 2022/1315.

in the second column of that Schedule,
and

- (b) for animals slaughtered, wild game prepared, fish marketed, milk collected or eggs packed on or after 1 April 2025, charge the amount specified in the relevant entry in the third column of that Schedule.”;

(b) ym mharagraff (2)—

- (i) yn lle “the Secretary of State” rhodder “the competent authority”;
- (ii) yn lle “him”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “the competent authority”;

(c) ym mharagraff (5)—

- (i) yn lle “The Secretary of State” rhodder “A competent authority”;
- (ii) yn lle “he” rhodder “the competent authority”;
- (iii) yn lle “his” rhodder “the”;

(d) ym mharagraff (6)—

- (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a)—
 - (aa) yn lle “If the Secretary of State” rhodder “If a competent authority”;
 - (bb) yn lle “he” rhodder “the competent authority”;
- (ii) yn is-baragraff (c), yn lle “he” rhodder “the competent authority”;

(e) ym mharagraff (8)—

- (i) yn lle “the Secretary of State” rhodder “a competent authority”;
- (ii) yn lle “his agent” rhodder “the competent authority’s agent”;
- (iii) yn lle “his inspection” rhodder “the inspection”;

(f) ym mharagraff (9)—

- (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “Secretary of State” rhodder “competent authority”;
- (ii) yn is-baragraff (c), yn lle “he” rhodder “the competent authority”;

(g) hepgorer paragraff (10).

(4) Yn rheoliad 4 (gwybodaeth, troseddau a gorfodi)—

(a) ym mharagraff (1)—

- (i) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), yn lle “the Secretary of State” rhodder “a competent authority”;

- (ii) yn is-baragraff (a), yn lle “Secretary of State” rhodder “competent authority”;
- (iii) yn is-baragraff (b), yn lle “the Secretary of State requires to enable him” rhodder “a competent authority requires”;

(b) ym mharagraff (3)—

- (i) yn lle “the Secretary of State” rhodder “a competent authority”;
- (ii) yn lle “him” rhodder “the competent authority”;

(c) yn lle paragraff (4) rhodder—

“(4) These Regulations are enforced by the Welsh Ministers.”

(5) Yn lle Atodlen 1 (Taliadau am Wylidwriaeth Gweddillion)(1) rhodder—

“SCHEDULE 1 Regulation 3(1)

Residues Surveillance Charges

<i>Type of creature or animal product</i>	<i>Charge (£) from 1 October 2024 to 31 March 2025</i>	<i>Charge (£) from 1 April 2025</i>
Bovine	0.7007 per carcasse	0.7617 per carcasse
Goat	0.0691 per carcasse	0.0751 per carcasse
Sheep	0.0691 per carcasse	0.0751 per carcasse
Soliped	0.04287 per carcasse	0.4660 per carcasse
Swine	0.0676 per carcasse	0.0735 per carcasse
Game and wild game	1.0461 per tonne	1.0461 per tonne
Poultry	0.5917 per tonne	0.6432 per tonne
Eggs	0.0206 per case of 360	0.0206 per case of 360
Milk	0.0373 per 1000 litres	0.0405 per 1000 litres
Fish other than trout	2.1660 per tonne of marketed product	2.3546 per tonne of marketed product
Trout	2.5963 per tonne of fish food	2.8222 per tonne of fish food”.

(1) Amnewidiwyd Atodlen 1 gan O.S. 2011/2945.

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o
Weinidogion Cymru
18 Medi 2024